

Tynnu aren gan ddefnyddio llawdriniaeth twll clo â thoriad unigol

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio llawdriniaeth twll clo â thoriad unigol yn y GIG i drin pobl â chyflyrau sy'n galw am dynnu aren. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae'r arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Gall ymyriad olygu prawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbytai) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n cynnig gwerth am arian i'r GIG.

Mae NICE wedi paratoi'r canllawiau hyn gan fod y driniaeth yn eithaf newydd. Golyga hyn nad oes llawer o wybodaeth ar gael hyd yma am ba mor dda y mae'n gweithio, pa mor ddiogel ydyw a pha gleifion fydd yn cael y budd mwyaf ohoni.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio cyflyrau sy'n galw am dynnu aren na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chyngor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 7.

Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Mae unrhyw fantais i gleifion o gymharu â thechnegau twll clo confensiynol ar gyfer tynnu aren yn ansicr, ac mae angen rhagor o wybodaeth am ddefnyddio'r driniaeth hon ar gyfer casglu arenau iach gan roddwyr i'w trawsblannu.

Os yw meddyg am ddefnyddio llawdriniaeth twll clo â thoriad unigol ar gyfer tynnu aren, dylai sicrhau y cymerir camau ychwanegol i egluro'r ansicrwydd hwn. Dylai hyn ddigwydd cyn i'r claf gytuno (neu beidio â chytuno) i gael y driniaeth. Dylid rhoi'r daflen hon a gwybodaeth ysgrifenedig arall i'r claf fel rhan o'r drafodaeth. Dylid hefyd roi trefniadau arbennig ar waith i fonitro'r hyn sy'n digwydd i'r claf ar ôl y driniaeth.

Mae penderfynu pa gleifion ddylai gael y driniaeth hon yn arbennig o bwysig wrth drin cleifion â chanser.

Mae hon yn driniaeth anodd a dim ond llawfeddygon sydd â phrofiad o lawdriniaeth twll clo ac sydd wedi'u hyfforddi'n benodol i gyflawni'r driniaeth ddylai wneud hynny.

Mae NICE wedi annog rhagor o waith ymchwil i'r driniaeth hon. Yn benodol, os defnyddir y driniaeth i drin canser yr arenau dylai gwaith ymchwil ystyried pa un a fydd y canser yn dychwelyd yn yr hirdymor. Os defnyddir y driniaeth ar gyfer rhoi aren, dylai gwaith ymchwil ystyried pa un a fydd yr arenau a gaiff eu trawsblannu yn goroesi a sut maent yn gweithio. Efallai y bydd NICE yn adolygu'r driniaeth hon os bydd rhagor o dystiolaeth yn dod i law.

Sylwadau eraill gan NICE

Nododd NICE fod y dechnoleg a ddefnyddir fel rhan o'r driniaeth hon yn datblygu'n gyflym ac y gallai defnyddio technoleg fwy datblygedig ddylanwadu ar ba mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw.

*Efallai nad hon yw'r
unig driniaeth ar
gyfer tynnu aren.
Dylai eich tîm gofal
iechyd siarad â chi
ynghylch
p'un a yw'n addas i
chi a pha
driniaethau eraill
sydd ar gael.*

Tynnu aren gan ddefnyddio llawdriniaeth twll clo â thoriad unigol

Yr enw meddygol ar y driniaeth hon yw 'neffrectomi laparosgopig â thoriad unigol'.

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma - siaradwch â'ch arbenigwr i gael disgrifiad llawn.

Gallai fod angen tynnu aren os caiff ei heffeithio gan ganser neu os caiff ei niweidio ac ni ellir ei gwella, neu os yw'n cael ei rhoi i'w thrawsblannu. Gellir gwneud hynny fel llawdriniaeth agored neu drwy 'llawdriniaeth twll clo' gan ddefnyddio sawl toriad bach (laparosgopig). Nod y driniaeth â thoriad unigol y mae NICE wedi edrych arni yw bod llai o greithiau ac anesmwythder, a'i bod yn cymryd llai o amser i wella o gymharu â thynnu aren â llawdriniaeth twll clo confensiynol drwy ddefnyddio un toriad bach yn unig.

Caiff y driniaeth ei chynnal gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol. Fel arfer, defnyddir system wedi'i chynllunio'n arbennig i osod sawl darn o offer drwy doriad unigol yn ardal y bogail, a thorri a thynnu'r aren drwy'r toriad hwn, fel arfer mewn bag bach. Mewn rhai achosion ymhlith merched gellir ei thynnu drwy'r fagina. Os na fwriedir i'r aren gael ei rhoi i'w thrawsblannu, gellir ei thorri'n ddarnau bach er mwyn ei thynnu'n haws.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Os yw eich meddyg wedi cynnig llawdriniaeth twll clo â thoriad unigol i chi ar gyfer tynnu aren, dylai ddweud wrthych fod NICE wedi penderfynu bod y manteision a'r risgiau'n ansicr. Nid yw hyn yn golygu na ddylid cynnal y driniaeth, ond dylai eich meddyg egluro beth mae'r driniaeth yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl gyda chi. Dim ond ar ôl i chi gael y drafodaeth hon y dylid gofyn i chi p'un a ydych am gytuno i gael y driniaeth hon. Dylech gael gwybodaeth ysgrifenedig, gan gynnwys y daflen hon, a'r cyfle i drafod y driniaeth gyda'ch meddyg cyn i chi wneud penderfyniad.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

*Gallech ddewis
cael y driniaeth
hon, cael triniaeth
wahanol, neu
beidio â chael
triniaeth
o gwbl.*

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Isod ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE. Edrychodd NICE ar naw astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda mae'r driniaeth yn gweithio?

Mewn astudiaeth o 50 o roddwyr arenau a gafodd lawdriniaeth twll clo â thoriad unigol neu safonol (sawl toriad), rhoddodd y cleifion sgôr allan o 10 ar gyfer eu poen, 96 awr ar ôl y driniaeth. Sgôr y cleifion a gafodd y driniaeth â thoriad unigol oedd 1.24 ar gyfartaledd o gymharu â sgôr o 2.08 ar gyfartaledd ar gyfer y rheini a gafodd y driniaeth safonol.

Mewn astudiaeth o 57 o gleifion, roedd y sgoriau poen a nododd y cleifion yn sylweddol is ar gyfer y tri diwrnod cyntaf ar ôl y driniaeth â thoriad unigol o gymharu â'r driniaeth safonol. Nid oedd gwahaniaeth sylweddol o ran y defnydd o boenladdwyr rhwng y ddau grŵp.

Cymerodd 11 diwrnod ar gyfartaledd i gleifion a gafodd y driniaeth â thoriad unigol ddychwelyd i weithgareddau arferol o gymharu â 14 diwrnod ymhlith y rheini a gafodd y driniaeth safonol mewn astudiaeth o 27 o gleifion. Mewn astudiaeth o 35 o gleifion, dychwelodd y rheini a gafodd y driniaeth â thoriad unigol i'r gwaith o fewn 18 diwrnod o gymharu â 46 diwrnod i'r rheini a gafodd y driniaeth safonol. Cymerodd y cleifion a gafodd y driniaeth â thoriad unigol lai o amser i wella'n llwyr yn gorfforol hefyd (29 diwrnod o gymharu ag 83 diwrnod).

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr y gellid mesur llwyddiant y driniaeth drwy'r ffaith bod llai o greithiau a, phan gaiff ei defnyddio i drin canser yr arenau, y ffaith nad oes tiwmorau newydd neu diwmorau sy'n ailddigwydd.

Risgiau a phroblemau posibl

Mewn astudiaeth o 17 o driniaethau â thoriad unigol ymhlith rhoddwyr arennau iach, roedd angen tynnu un o'r arennau o'r derbynydd ar ôl ei thrawsblannu o ganlyniad i glot gwaed yn yr aren a roddwyd.

Nododd astudiaeth o 18 o gleifion a gafodd y driniaeth â thoriad unigol fod un claf wedi cael niwed i'r coluddyn ac un arall i'r diaffram. Yn y ddau achos, cafodd y niwed ei atgyweirio heb wneud rhagor o doriadau.

Mewn astudiaeth o 62 o gleifion roedd angen gwneud rhagor o doriadau mewn dwy driniaeth â thoriad unigol (trosglwyddo i'r driniaeth safonol). Gwnaed hyn er mwyn helpu i dynnu aren un claf, ac i reoli gwaedu yn y claf arall, a gafodd dynnu ei aren ynghyd â rhan o'i wreter (y tiwb sy'n cario wrin o'r aren i'r bledren). Mewn astudiaeth o 12 o gleifion, bu'n rhaid newid o'r driniaeth â thoriad unigol i'r driniaeth safonol ar gyfer un claf â meinweoedd a oedd wedi'u cysylltu mewn ffordd annormal (adlyniadau) a gafodd waedu a oedd yn galw am drallwysiad gwaed. Cafodd dwy driniaeth â thoriad unigol i dynnu aren ac wreter eu trosglwyddo i lawdriniaeth agored: ar gyfer un claf ag adlyniadau difrifol ac un claf lle roedd angen tynnu'r nodau lymff o amgylch yr aren yn llwyr.

Mewn astudiaeth o 15 o gleifion a gafodd y driniaeth â thoriad unigol, datblygodd un claf a oedd yn cael triniaeth steroidau hirdymor am gyflyrau eraill achos o chwyddo difrifol yn yr abdomen ac ymddatodiad yn safle'r clwyf. Datblygodd claf arall rwystr yn y coluddyn bach bythefnos ar ôl y driniaeth, a bu'n rhaid cynnal archwiliad llawfeddygol.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddygaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod niwed i'r pibellau gwaed mawr yn yr abdomen ac i organau cyfagos, gan gynnwys y dduwg ymysg problemau posibl.

Rhagor o wybodaeth am ganser yr arennau

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn 'PALS' fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi hefyd. I gael manylion am holl ganllawiau NICE ar ganser yr arennau, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ar atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn holi barn cyngorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'neffrectomi laparosgopig â thoriad unigol'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn

www.nice.org.uk/guidance/HTG278

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

Level 1A, City Tower, Piccadilly Plaza, Manchester M1 4BT; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8468-8

N2710 November 2011

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2011 All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.